# Yr helgwn yng ngyddfau ei gilydd

## P. H. JONES a hanes Yr Amserau

ER GWAETHAF yr ymosodiadau milain arno fel pleidiwr y 'doubly-distilled wishy-washy opinions of John Bright & Co.', parhaodd Meddyliwr (Eleazer Roberts) yn gadarn yn ei wrthwynebiad i ryfel y Crimea yn ystod hanner cyntaf 1855.

Gan fod y farn gyhoeddus mor gryf o blaid y rhyfel, daeth John Lloyd i ofni fwyfwy y gallai colofn Meddyliwr leihau gwerthiant yr *Amserau*: yn wir, yn ôl yr hanes, bygythiodd cryn nifer o ddarllenwyr derfynu eu tanysgrifiadau iddo.

Ond er i Lloyd geisio darbwyllo Meddyliwr y dylid 'lliniaru rhyw gymaint ar frwdaniaeth' ei ysgrifau, ni fynnai hwnnw gyfaddawdu a'r diwedd fu iddo gael ei orfodi i roi'r gorau i'w golofn ddechrau Mehefin 1855. Serch hynny, gwyddom iddo barhau i gyfrannu eitemau llai dadleuol i'r *Amserau* tan 1857.

Nid dyna'r unig achos o wrthdaro rhwng perchennog newyddiadur Cymraeg a newyddiadurwr oherwydd y rhyfel. Pan gollodd Caledfryn ei le fel golygydd y *Gwron* ddiwedd 1855, un o gyhuddiadau J. T. Jones mewn llythyr hirfaith ato oedd iddo droi'r *Gwron* yn enau i'r Gymdeithas Heddwch: 'I wrote to you begging you would not be so violent but instead of listening to me you kept on writing more violent articles on the subject'.

'Roedd cryn sail i bryder Lloyd ynglŷn â dyfodol yr *Amserau* ganol 1855. Ar yr olwg gyntaf 'roedd ei fusnes yn ffynnu: oherwydd y cynnydd yng ngwerthiant yr *Amserau* i dros 5,000 o gopïau'r wythnos gallai Lloyd fforddio dechrau ar sawl menter newydd gyda'r bwriad o ehangu ei fusnes fel na byddai'n dibynnu mwyach ar lwyddiant un newyddiadur yn unig.

Ond, fel canlyniad i ddiddymu'r dreth ar newyddiaduron ganol 1855, fe lansiwyd nifer o deitlau newydd gan gyhoeddwyr yng Nghymru, newyddiaduron a oedd yn rhatach na'r *Amserau* ac a gefnogai'r rhyfel.

Ymateb Lloyd i'r sialens oedd cychwyn y *Cronicl Wythnosol*, newyddiadur ceiniog dan olygyddiaeth Llew Llwyfo a oedd yn gryf o blaid y rhyfel. Ni wyddys pa bryd yn 1855 y cychwynnwyd y *Cronicl*: nid oes yr un rhifyn o'r papur ar gael mewn unrhyw lyfrgell. Yn wir, os oes gan ddarllenwyr *Y Casglwr* gopïau o'r newyddiadur hwn byddai'r Llyfrgell Genedlaethol yn falch iawn o glywed oddi wrthynt!

Yn ôl hunangofiant y Llew — gwaith digon dryslyd ac anghywir ar adegau — bu'r *Cronicl* yn llwyddiant mawr. Ond er i'w werthiant ragori ar werthiant yr *Amserau*, penderfynodd Lloyd ei derfynu 'gan gredu y buasai y cyhoedd yn dychwelyd at eu cariad cyntaf, sef yr *Amserau*', camsyniad dybryd, ym marn y Llew.

Beth bynnag yw gwir yr hanes hwn, byr oedd hoedl y *Cronicl*: daeth i ben, mae'n debyg, yn ystod ail hanner 1856.

* * * *

PRIF FANTAIS Lloyd yn ei frwydr yn erbyn y cystadleuwyr newydd, megis *Herald* Caernarfon, oedd teyrngarwch hen dderbynwyr yr *Amserau*. Fel y dangosodd Maurice Milne yn ei astudiaeth o effeithiau diddymu'r dreth ar newyddiaduron rhanbarthol Lloegr, 'roedd hon yn fantais bwysig dros ben.

Yn anffodus fe gythruddwyd llawer o'r derbynwyr ffyddlonaf o ddiwedd 1855 ymlaen wrth i'r *Amserau* ymosod yn filain ar ei olygydd cyntaf, Gwilym Hiraethog. Yr hyn a achosodd y ffrwgwd oedd yr anghydfod ymhlith yr Annibynwyr ynglŷn â pherchnogaeth y *Dysgedydd*, anghydfod a adlewyrchai'r tyndra yn yr enwad rhwng y cyfundrefnwyr (plaid golygyddion y *Dysgedydd*) a'u gwrthwynebwyr.

Mynnai'r gwrthgyfundrefnwyr nad cylchgrawn a oedd yn eiddo i'r enwad oedd y *Dysgedydd* mwyach: 'roedd angen felly sefydlu cylchgrawn enwadol newydd. Gwnaeth cynnig Thomas Davies, Dolgellau, o £500 tuag at sefydlu cylchgrawn a fyddai'n gwasanaethu'r ysgol sul, hi'n bosibl i fwrw ymlaen â'r cynllun hwn. Cyhoeddodd yr *Amserau* lythyrau oddi wrth bleidwyr y cylchgrawn arfaethedig ganol Rhagfyr 1855.

Ceisiodd Hiraethog, fel un o olygyddion y *Dysgedydd*, ateb honiadau ysgubol un ohonynt, 'Annibynwr', yn y rhifyn canlynol o'r *Amserau*, gan fynd ymlaen i erfyn ar y golygydd i beidio 'byth o hyn allan a gollwng dim enwadol a fydd o duedd ddadleuol' i'w golofnau ond fel hysbyseb.

Derbyniodd ateb digon sarrug ymhen wythnos pan gyhoeddodd yr *Amserau* lythyr arall oddi wrth 'Annibynwr' yn dadlau y dylid trafod dadleuon enwadol yn y wasg: wrth geisio gwahardd eu trafod 'roedd Hiraethog yn euog o geisio 'atal rhyddid y werin'.

Aeth pethau o ddrwg i waeth yn ystod misoedd cynnar 1856. Er bod David Rees, Llanelli, a lusgwyd o'i anfodd i'r ffrae, o'r farn fod Hiraethog 'dipyn bach yn rhy bruddaidd ac anynad uwchben y fath helynt', rhaid cyfaddef fod ymosodiadau gwenwynllyd C. R. Jones yn yr *Amserau* ar olygyddion y *Dysgedydd* yn cyfiawnhau dicter Hiraethog.

* * * *

CYN DIWEDD Chwefror 1856 ceisiodd J. T. Jones yntau fanteisio ar y ffrwgwd er mwyn hybu gwerthiant ei newyddiadur, y *Gwron*. 'Roedd hefyd yn awyddus i dalu'r pwyth yn ôl i'r *Amserau* gan i hwnnw gyhoeddi (fel hysbyseb) nifer o lythyrau a oedd yn datgelu ei ddiffyg egwyddor fel cyhoeddwr a phregethwr!

Cyhoeddodd y *Gwron* lythyr beiddgar oddi wrth 'Cefn Bithel' (sef R. P. Everett o'r Wyddgrug) yn honni bod yr *Amserau* yn newyddiadur a ymosodai'n gyson ar yr Annibynwyr gan oddef 'i bob math o erthylod chwydu cynwysiad madredig eu hymysgaroedd ar hyd y blynyddoedd, i wyneb annibyniaeth ac annibynwyr mwyaf egwyddorol yr oes'.

Ar amlen *Dysgedydd* Mawrth 1856 cyhoeddwyd sylwadau gan Everett a Hiraethog a wylltiodd John Lloyd yn ei dro 'ymosodiadau hollol ddisail ac annheg ar yr *Amserau* a'r *Cronicl Wythnosol*, ynghyd â'r swyddfa yn gyffredinol'.

Ceisiodd amddiffyn ei hun trwy amlinellu hanes yr *Amserau*, gan bwysleisio'r cynnydd yn ei gylchrediad wedi i Hiraethog roi'r gorau i'w olygyddiaeth.

'Roedd hyn yn dân ar groen Hiraethog. Prysurodd i gyhoeddi llith hirfaith, 'cerydd *dignified*,' ar amlen *Dysgedydd* Ebrill 1856 yn cyflwyno ei fersiwn yntau o hanes yr *Amserau*, fersiwn a oedd yn pwysleisio pa mor ddyledus oedd Lloyd iddo.

Atebwyd y datganiadau gan Lloyd. Cythruddwyd Hiraethog ymhellach gan ymosodiadau arno yn y *Cronicl Wythnosol* gan 'y creadur aflan, diegwyddor a digymeriad hwnw a'i geilw ei hun Llew Llwyfo' a gan 'Arfonian'. Clywodd cyn hir mai 'Ceiriog o Manchester' a oedd yn llercian y tu cefn i'r ffugenw hwn: os felly, dyma un eitem o waith Ceiriog sydd wedi mynd ar goll erbyn heddiw!

Ychwanegwyd at lid Hiraethog gan ffug-hysbyseb difrïol yn yr *Herald* y bu'n rhaid i'r Llew wadu unrhyw gyfrifoldeb amdano.

* * * *

GELLIR DEALL felly paham y ceisiodd Hiraethog berswadio Eben Fardd i drefnu gwrthdystiad gan 'ddynion cyhoeddus a dylanwadol ein gwlad' yn erbyn 'tuedd wenwynig y papurach rhad' i lygru ysbryd a chwaeth y Cymry.

Hwyrach iddo ysgrifennu at eraill i'r un perwyl oherwydd fe fu Lloyd yn taranu yn erbyn y 'dull Jesuitaidd' (ei hoff derm dirmygus) o 'lythyrau cyfrinachol' a anelwyd yn erbyn yr *Amserau*.

Mae'n eironig gweld Hiraethog 'tad y wasg Gymraeg', yn gwingo fel hyn o dan lach y papurau rhad ac yn ceisio cyfyngu ar eu rhyddid ymhen llai na blwyddyn o'u hymddangosiad!

Yn y cyfamser, rhoddwyd proc arall i'r ffrae gan y *Gwron*. Mae'n amlwg mai prif amcan ei ymosodiad ar yr *Amserau* mewn erthygl flaen ar 22 Mawrth oedd profi nad oedd unrhyw gysylltiad mwyach rhwng yr *Amserau* a Hiraethog.

Mae'n anodd credu bod gwir angen gwneud hyn, ond yn ôl y *Gwron* 'roedd 'cannoedd lawer yn y Deheudir' yn parhau i gredu mai Hiraethog oedd golygydd yr *Amserau*.

Cyhoeddwyd nifer o lythyrau yn ystod yr wythnosau canlynol yn ailadrodd yr hen gŵyn mai papur gwrth-Annibynnol oedd yr *Amserau* ond daeth yr ymgyrch i ben ar ôl i un o gyn-ddosbarthwyr y *Gwron* gwyno 'os na all y *Gwron* fyw heb ei borthu a llysnafedd afiach o'r fath yma, gadawer iddo farw, neu newidier ei enw — yn lle *Gwron* galwer ef "Archenllibiwr", bydd yn enw llawer cymwysach'.

* * * *

PARHAODD yr *Amserau* yntau i gyhoeddi llythyrau a oedd yn cefnogi ei safbwynt ac a ymosodai ar Hiraethog yn ystod Ebrill a Mai.

Hwyrach mai'r cyfraniad mwyaf sylweddol oedd llythyr 'Carlyle' a gyhoeddwyd ddiwedd Ebrill, lle dywed, 'Asgwrn cefn y wasg yw y werin — yma y mae dirgelwch ei nerth; ac ond i feddianwyr a golygwyr ofalu am wasanaethu y bobl yn ffyddlawn a gonest, ni raid iddynt ofni oddiwrth fygythiad y "dynion mawr" i dynu eu cefnogaeth yn ôl, neu y bydd iddynt gychwyn papyr eu hunain'.

Mae'r cymal olaf yn tanlinellu prif effaith y ffrae anhyfryd hon: 'roedd Hiraethog yn teimlo ei fod yn rhydd mwyach i gynnig ei wasanaeth i newyddiadur a fyddai'n cystadlu yn erbyn yr *Amserau*. Manteisiodd Thomas Gee ar hyn ymhen ychydig fisoedd.

Ond problem arall a boenai Lloyd o ganol Mai 1856 ymlaen, sef achos o enllib a ddygwyd yn erbyn yr *Amserau* gan offeiriad pabyddol Penybont.

*(I'w barhau)*